



Gwaith Diogelwch Llyn Tegid

Beth yw'r gwaith sy'n cael ei gynllunio ar gyfer Llyn Tegid?

Mae'r argloddiau yn cael eu harchwilio i weld os gallent wrthsefyll llifogydd difrifol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'u uchder, eu cyfansoddiad, a'u mesurau gwrth-erydiad - megis yr amddiffynfeydd carreg sydd hyd ymyl yr argloddiau.

Mae'r argloddiau sy'n rhan o'r asesiad hwn yn arwain o Ganolfan Bala Adventure and Watersports, o amgylch y Parc Menter ger Afon Dyfrdwy a Thryweryn, hyd at bont yr A494.

Pam fod y gwaith yn angenrheidiol?

Mae'r gwaith yn angenrheidiol i sicrhau bod Llyn Tegid yn parhau i gyflawni gofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, ac yn parhau i fod yn ddiogel yn yr hirdymor. Caiff Llyn Tegid ei reoli gan y Ddeddf, ac mae'n ofynnol i gynnal archwiliadau rheolaidd gan Beirianwyr Archwilio Cronfeydd cymwys. Yn ystod yr archwiliad diwethaf yn 2014 cynigwyd argymhellion statudol, ac mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â hwy.

Pryd fydd yn dechrau?

Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn ystod haf 2019 ar y cynharaf, yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio ac unrhyw ganiatâd perthnasol arall.

Pryd fydd y gwaith wedi'i gwblhau?

Mae'r prosiect yn ei ddyddiau cynnar, ac nid yw'n bosibl rhoi amserlenni penodol cyn ein bod wedi cytuno ar atebion. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir gallai'r gwaith gymryd hyd at ddwy flynedd.

Faint o aflonyddwch allwn ni ei ddisgwyl?

Bydd rhaid cau rhannau o'r llwybrau troed a'u dargyfeirio am gyfnodau penodol yn ystod yr adeiladu. Bydd mwy o draffig hefyd o ganlyniad i'r gwaith, a gallai rhai o'n gweithredoedd fod yn swnllyd- megis hollti creigiau. Fodd bynnag, bydd holl gyfnod adeiladu'r prosiect yn cael ei reoli'n ofalus i leihau'r effaith ar y gymuned leol. Pan fo'n bosibl, bydd y gwaith yn digwydd fesul cam, gan ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid sy'n cael eu heffeithio i egluro'r dulliau a ddefnyddir.

A fydd y prosiect yn effeithio ar berygl llifogydd yn y Bala?

Rydym yn rheoli'r perygl o lifogydd yn y Bala yn y tymor hir ac yn gwella diogelwch yr argloddiau. Mae'r rhain yn helpu i amddiffyn y dref rhag llifogydd ar y cyd â Rheolau Gweithredu Dyfrdwy (gweler [Sut mae rheoleiddio dŵr yn gweithio yn Llyn Tegid?](#)), nid yw'r dref wedi dioddef llifogydd ers y 60au. Ni fydd y prosiect hwn yn cynyddu'r perygl o lifogydd yn y Bala.

Sut bydd ansawdd amgylcheddol eithriadol y llyn a'r tir cyfagos yn cael ei ystyried yn ystod y prosiect?

Mae Llyn Tegid wedi'i leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'r argloddiau o fewn ardaloedd amgylcheddol sensitif sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Byddwn yn chwilio am atebion doeth i broblemau, ac am gyfleoedd i wella'r amgylchedd yn unol â'r gofynion dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn parhau i ymgynghori'n agos gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y tîm adnoddau naturiol sy'n gyfrifol am y safleoedd gwarchoddedig dan sylw, yn ogystal â'r rhanddeiliaid allweddol eraill i

Evans, Helen, 05/03/2018

sicrhau fod pob ateb yn cael ei asesu'n briodol, bod effeithiau'n cael eu lleihau, a bod cyfleoedd i wella yn cael eu hadnabod.

Beth am yr effaith ar ddefnydd hamdden pobl o'r llyn a'r glannau?

Mae'n annhebygol iawn y bydd y cynllun yn effeithio ar ddefnydd hamdden o'r llyn ei hun. Fodd bynnag, bydd y gwaith yn amharu ar rannau o'r llwybrau traed yn ystod y prosiect. Byddwn yn ceisio amharu arnynt cyn lleied ag sy'n bosibl. Bydd yr holl lwybrau troed yn cael eu hadfer i'w cyflwr presennol yn sgil y gwaith.

Beth am yr effaith ar dwristiaeth?

Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei reoli mewn modd sensitif er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl ar dwristiaeth. Rydym yn ymgynghori â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth ddatblygu'r cynllun, er mwyn sicrhau fod y cyfan sy'n digwydd yn dderbyniol ac ein bod yn cael clywed eich barn chi. Yn yr hirdymor, rydym yn gobeithio bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth a'r economi leol. Mae cynnal mynediad ar hyd glannau'r llyn a'i olygfeydd godidog yn ystyriaeth allweddol yn ystod y broses o ddatblygu'r dyluniad.

Beth fydd y peth cyntaf a welwn?

Yn ystod y misoedd diwethaf, efallai eich bod wedi gweld mwy o waith ymchwilio yn yr ardal. Pwrpas y gwaith oedd casglu gwybodaeth dechnegol i werthuso a datblygu ein hopsiynau. Roedd yn cynnwys gwaith archwilio'r ddaear, arolygon topograffig a rhai amgylcheddol. Rydym yn gobeithio na wnaeth y gwaith ymchwil amharu ar eich mwynhad o'r ardal leol. Efallai bydd rhagor o waith tebyg yn cael ei gyflawni wrth i ni ddylunio manylion y rhaglen yn ystod Hydref a Gaeaf 2018/19. Bydd hyn hefyd yn cael ei reoli mewn modd sensitif.

Pryd fyddwn ni'n gallu mynegi barn a dysgu mwy?

Rydym yn trafod gyda rhanddeiliaid allweddol trwy gydol y broses arfarnu, ac yn diweddarau ein gwefan yn gyson. Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn galw draw ar ddydd Mercher yr 18^{fed} o Orffennaf yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Y Bala, LL21 7SR. Cewch ddysgu mwy am y gwaith arfaethedig, a chael lleisio eich barn wrth i ni ddylunio'r gwaith mewn manylder. Bydd rhagor o sesiynau o'r fath yn cael eu trefnu er mwyn i chi gael cynnig sylwadau a dysgu rhagor am y gwaith.

Pwy sy'n gwneud y gwaith?

Rydym wedi penodi cwmni aml-ddisgyblaeth, Black & Veatch i ymgymryd â'r gwaith arfarnu dechreuol. Bydd gwaith dylunio manwl pellach a'r gwaith adeiladu yn cael ei gynnig ar dendr cystadleuol ar yr adeg briodol.

Pwy fydd yn rhoi caniatâd i'r prosiect?

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fydd yn gyfrifol am ystyried caniatâd cynllunio i'r prosiect hwn. Bydd yn rhaid sicrhau caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru i rannau o'r gwaith hefyd. Er eu bod yn rhan o'r un sefydliad, mae'r staff technegol a thrwyddedu yn gweithredu'n annibynnol ac yn ddiuedd o ran eu hasesiadau.

A fydd coed yn cael eu torri lawr?

Mae'r cynnig arfaethedig yn cynnwys cryfhau'r argloddiau a gwella'r amddiffynfeydd carreg hyd lannau'r llyn. Bydd gofyn torri llawer o goed (onnen yn bennaf) sydd wedi dechrau sefydlu ar yr argloddiau ac yn eu gwanhau. Efallai bydd nifer bychan o goed yn cael eu cadw, yn ddibynol ar asesiadau pellach. Ein hamcan yw cadw'r coed iachaf a mwyaf gwerthfawr pan fydd hi'n bosibl i weithio o'u cwmpas. Rydym yn tybio y gellir cadw rhai o'r coed sydd ar ochr sych yr arglawdd trwy wneud hyn. Rydym hefyd yn datblygu syniadau ar gyfer gwelliannau i'r dirwedd a'r amgylchedd. Byddai hyn yn lleddfu ychydig ar effeithiau niweidiol y prosiect, megis torri coed. Ar y funud, rydym yn chwilio am safleoedd posibl ar gyfer plannu rhagor o goed a chloddiau, ac yn chwilio cyfleoedd am welliannau ehangach i'r amgylchedd. Bydd yr holl goed a gaiff eu heffeithio yn cael eu hasesu'n drylwyr gan arolygon ecolegol a choedyddiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu torri mewn modd priodol.

Pam fod coed wedi cael tyfu ar yr argloddiau?

Tra bo rhai o'r coed aeddfed yn hŷn na'r cynllun o'r 50au, mae nifer fawr ohonynt (onnen yn bennaf) wedi hadu'n naturiol ymysg yr amddiffynfeydd carreg sydd hyd grib yr argloddiau. Yn ddelfrydol byddai'r tyfiant wedi cael ei reoli'n fwy llym yn y gorffennol gyda thoriadau cyson, ac ni fyddai angen cwblhau'r gwaith yma yn awr. Hyd yma, mae'r holl waith o reoli coed wedi canolbwyntio ar asesiadau o'u hiechyd a'u ffurf, gydag unrhyw waith torri yn rhoi blaenoriaeth i iechyd y cyhoedd. Rydym yn ymwybodol fod rhan helaeth o'r onn wedi'u heintio gan *ash dieback* ('chalara'). Golyga hyn, ynghyd a'u safle anffafriol rhwng slabiau carreg yr argloddiau, nad ydynt yn iach iawn. Yn y dyfodol, bydd rhaglenni cynnal a chadw yn rheoli twf unrhyw goed ifanc gan sicrhau na fydd yr un broblem yn ymddangos drachefn. Nid oedd presenoldeb y coed ar yr argloddiau yn ffactor yn anghenraid y gwaith diogelwch.

A yw hyn yn effeithio ar y prosiect Rheilffordd arfaethedig?

Rydym yn ymwybodol o'r estyniad arfaethedig i Reilffordd Llyn Tegid ac yn cydweithio i ddeall gofynion eu cynllun a sut y gellir rheoli'r cysylltiadau gyda'r prosiect hwn.

A fydd cynhwysedd y llyn yn cynyddu?

Ni fydd cynhwysedd y llyn yn cynyddu

A fydd yr argloddiau yn cael eu codi?

Mae'r cynnig arfaethedig yn cynnwys cryfhau'r argloddiau a gwella'r amddiffynfeydd carreg hyd lannau'r llyn. Nid ydym yn bwriadu codi'r argloddiau.

Sut fydd y cynllun newydd yn edrych?

Torri coed a thyfiant fydd yn peri'r newid mwyaf sylweddol i'r olygfa bresennol. Bydd yn creu golygfeydd newydd o'r llyn ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r llwybrau cerdded hyd y glannau. Bydd y cyfuniad o dorri coed ar yr arglawdd a gwella'r amddiffynfeydd carreg yn gwneud yr arglawdd edrych ychydig yn galetach, gan edrych yn fwy amrywiol o ran ei wead. Tra bo hyn yn newid mawr, bydd yn edrych yn debycach i sut fyddai'r arglodd wedi edrych pan gwblhawyd Cynllun Llyn y Bala yn y 1950au.

Sut mae rheoliadau dŵr yn gweithio yn Llyn Tegid?

Trowyd Llyn Tegid, llyn naturiol mwyaf Cymru, yn gronfa yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn sicrhau cyflenwad o ddŵr i Gamlas Swydd Amwythig. Thomas Telford adeiladodd y llifddorau wrth allfa Llyn Tegid. Byddai'r dŵr a ryddhawyd trwy'r llifddorau yn bwydo'r gamlas yn Rhaeadr y Bedol, Llangollen.

Yn yr 1950au, cwblhawyd Cynllun Llyn y Bala gan Fwrdd Afon Dyfrdwy a Chlwyd. Gostyngwyd lefel allfa naturiol y llyn (gan osgoi llifddorau gwreiddiol Telford), ac adeiladwyd llifddorau newydd ymhellach i lawr yr afon o'r cydlifiad gydag Afon Tryweryn. Codwyd argloddiau i gadw'r dŵr a storiwyd y tu ôl y llifddorau ac i ddiogelu tref Bala rhag llifogydd. Golyga hyn fod oddeutu 21,000,000 m³ (metr ciwbig) o ddŵr yn gallu cael ei storio yn Llyn Tegid. Mae'r cynhwysedd hwn yn golygu bod Llyn Tegid yn cael ei ystyried yn gronfa dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Heddiw, rheolir y gronfa hon, a'r rhai yn Llyn Celyn a Llyn Brenig, i sicrhau ffynhonnell barhaus o ddŵr Afon Dyfrdwy. Gall hyn olygu hyd at tua 830 ML/d (megalitr y dydd), i dri chwmni dŵr a'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

Yn ogystal â hyn, caiff unrhyw orlif ei ddal yn Llyn Tegid dros dro, gan leihau'r perygl o lifogydd yn Nyffryn Dyfrdwy.

A fydd rheolau gweithredu Afon Dyfrdwy yn newid yn sgil y cynllun?

Na, ni fydd y rheolau gweithredu'n newid.

Gorffennaf 2018

